

Cyflawni **canlyniadau** **cadarnhaol** i deuluoedd perthynas

Kinship Connected
a **Kinship Reach**



Ar gyfer teulu a
ffrindiau sy'n camu i'r
bwllch i fagu plentyn.

Ni yw Kinship

Ers 2001, rydym wedi bod yn cefnogi gofalwyr perthynas - ffrindiau neu deuluoedd sy'n camu i'r adwy i fagu plant pan nad yw eu rhieni'n gallu gwneud hynny. Rydym yn cefnogi, cynghori a hysbysu gofalwyr perthynas. Rydym yn eu cysylltu fel eu bod yn teimlo'n bwerus. Rydym yn gynnyrch ein cymuned o ofalwyr perthynas ac yn bodoli ar eu cyfer. A gyda'n gilydd rydym yn datblygu ymchwil, ymgyrchoedd a datrysiadau polisi - gan greu newid cadarnhaol ar draws cymdeithas.

Rydym yn newid bywydau ac yn newid y system.

Pam gweithio gyda Kinship?

Gyda chymuned ffyniannus o fwy na 12,000 o ofalwyr perthynas, rhwydwaith o dros 160 o grwpiau cymorth cyfoedion, a Rhwydwaith Gweithwyr Proffesiynol sy'n cynnwys mwy na 2,000 o aelodau, ni yw'r brif elusen gofal perthynas yng Nghymru a Lloegr.

Rydym yn gweithio ochr yn ochr â gofalwyr perthynas i ddatblygu ymgyrchoedd, atebion polisi ac ymchwil arloesol gyda phartneriaid academiaidd, gan fynd at galon yr hyn sy'n bwysig i'w teuluoedd trwy ein harolygon a'n hadroddiadau, ein rhwydwaith Pencampwyr Ymgyrchoedd lleol a'n dilynwy'r ymroddedig ar y cyfryngau cymdeithasol.

Ein gwefan ni yw'r unig hyb annibynnol ar gyfer teuluoedd perthynas ac mae ganddo adnoddau ar-lein arbenigol ar gyfer gofalwyr perthynas a gweithwyr proffesiynol sy'n cefnogi gofalwyr perthynas, yn ogystal â chanllawiau ar gyfer awdurdodau lleol.

Ein gweledigaeth yw cymdeithas sy'n cydnabod, gwerthfawrogi a chefnogi gofalwyr perthynas a'r plant y maent yn gofalu amdanynt.



Mae 1 o bob 8

gofalwr perthynas yn pryderu y gallent orfod rhoi'r gorau i ofalu am eu plant perthynas yn ystod y flwyddyn nesaf os na fydd eu sefyllfa'n gwella **

I'r mwyafrif o'r plant hyn, y dewis arall fyddai gofal maethu neu breswyl prif ffrwd, gyda chanlyniadau dinistriol i brofiadau a chanlyniadau'r plant, yn ogystal â chostau ychwanegol sylweddol i gyllidebau awdurdodau lleol. Gall Kinship Connected a Reach ddarparu'r cymorth sydd ei angen ar deuluoedd perthynas i'w hatal rhag cyrraedd unrhyw bwynt argyfwng.

Mae ein gwerthusiad annibynnol yn amlygu sut y gall Kinship

Connected leihau'r tebygolrwydd y bydd teuluoedd angen ymyrraeth lles plant arall costus, gan arbed arian i awdurdodau lleol y gellir ei wario ar gefnogi teuluoedd mewn mannau eraill.

Ffynhonnell: Adolygiad annibynnol Starks Consulting (2020)



Mae mwy na

141,000

o blant mewn gofal perthynas yng Nghymru a Lloegr*



Mae gofalwyr perthynas bedair gwaith yn fwy tebygol o fod â debyd uniongyrchol, archeb reolaidd neu fil na allent ei dalu yn y mis diwethaf. Roedd 8% o ofalwyr perthynas yn defnyddio banciau bywyd oherwydd cost byw**



Mae bron i

1 o bob 5

gofalwr perthynas yn teimlo'n unig yn aml neu bob amser**

*Ffynhonnell: *Forgotten: Support for kinship children's education and mental health*. Awst 2024.

**Ffynhonnell: *Make or Break: Annual survey of kinship carers* 2024.

Mae comisiynu ein gwasanaethau yn fuddsoddiad

Pan fyddwch yn comisiynu ein rhaglenni, byddwch yn cynnig y gefnogaeth orau bosibl i ofalwyr perthynas yn eich awdurdod lleol. Ac mae canlyniadau gwell i deuluoedd perthynas hefyd yn golygu lleihau'r angen i osod plant mewn gofal maeth, gan eich helpu chi i arbed arian yn y tymor hir.

“ Mae Kinship wedi cynorthwyo ein hawdurdod lleol drwy ddarparu grŵp cymorth rheolaidd... mae yna nawr grŵp hyfryd o warcheidwaid sy'n derbyn cymorth ac yn cynnig cymorth i'w gilydd.” Mae hyn wedi caniatáu i'r awdurdod symud ymlaen gyda chynlluniau ar gyfer y dyfodol, i gefnogi'r teuluoedd ac i feithrin perthnasoedd. Mae gallu cyfeirio unigolion at Kinship am gymorth yn syth pan fydd problemau'n codi neu pan fo angen rhywfaint o gyngor arnynt yn helpu ein gwarcheidwaid i deimlo bod rhywrai yn gwrando arnynt ac yn eu gwerthfawrogi. Ac mae'r awdurdod yn gallu canolbwyntio ar gefnogi'r achosion mwyaf cymhleth gan wybod bod ein teuluoedd mewn dwylo diogel.

Awdurdod Lleol Walsall



Ein heffaith

Cymerodd **392** o ofalwyr perthynas ran yn Kinship Connected yn 2023/24. Cyflawnodd **90%** eu nodau yn y rhaglen yn llawn neu'n rhannol. Dyfarnodd **100%** o'r rhai a gafodd eu barnu ansawdd y cymorth fel 'rhagorol' neu 'da' ac roedd **100%** yn debygol o argymhell Kinship Connected i ofalwyr perthynas eraill.

83% yn fwy abl i reoli perthnasoedd teuluol

82% â mwy o hyder wrth gael mynediad at wasanaethau cynghori

80% â llai o bryderon ariannol

80% â mwy o hyder mewn eiriolaeth

78% yn fwy abl i reoli ymddygiad plant

77% â llai o bryder am anghenion addysgol plant

76% â hyder uwch mewn rôl gofalu

76% ag ymdeimlad o les uwch

75% â mwy o hyder wrth gael mynediad at gyngor cyfreithiol

74% â llai o bryder ynghylch lles plant

71% â llai o bryderon ynghylch tai

Ymysg yr awdurdodau lleol sy'n comisiynu Kinship Connected neu Reach mae: Bradford Children and Families Trust, Birmingham Children's Trust (England), Leeds City Council, London Borough of Bromley, Rhondda Cynon Taf County Borough Council, Surrey County Council, Solihull Metropolitan Borough Council, Ealing Council (London Borough of Ealing), Hammersmith and Fulham Council, London Borough of Hounslow, Nottinghamshire County Council, Walsall Council, Sunderland City Council.

Kinship Connected

Kinship Connected yw ein prif raglen ar gyfer gwarcheidwaid arbennig a gofalwyr perthynas, ac fe'i chyflwynir mewn cydweithrediad ag awdurdodau lleol.

Mae'r model cymorth dwys hwn wedi'i ategu gan ddulliau sy'n canolbwyntio ar y person ac sy'n hysbysu trawma. Mae'n defnyddio proses sy'n canolbwyntio ar nodau i gyflawni canlyniadau cadarnhaol i deuluoedd perthynas.

Tair elfen allweddol y model **Kinship Connected**:

1. cefnogaeth un-i-un
2. cysylltiad cymdeithasol
3. eiriolaeth a mynediad at wasanaethau

Cynigir **cefnogaeth un-i-un** i ofalwyr perthynas gan Weithwyr Teulu Arbenigol Kinship am hyd at 6 mis yr un. Mae'r cymorth wedi'i deilwra i anghenion ac amgylchiadau pob gofalwr perthynas.

Rydym yn creu **cysylltiad cymdeithasol** trwy ein Grwpiau Cymorth Cysylltiedig. Dyma ofodau a rhwydweithiau hwylus ar gyfer gofalwyr perthynas i rannu eu straeon, gwrando ar ei gilydd, cynnig cyngor, a darparu cymorth i'w gilydd.

Mae Gweithwyr Teuluol Kinship yn helpu gofalwyr perthynas i lywio'r system a **chael mynediad at y gwasanaethau** a'r adnoddau sydd eu hangen arnynt - megis grantiau unigol i gefnogi gofalwyr gyda chostau byw a mynediad at wasanaeth cyd-fentora 'Someone Like Me' Kinship.

Trwy gefnogaeth gyson, tosturi a dealltwriaeth, mae Gweithwyr Teulu Kinship yn meithrin ymddiriedaeth gyda gofalwyr perthynas. Maent yn cefnogi gofalwyr perthynas i fynegi eu barn a'u dymuniadau ac yn eu **grymuso i eirioli** drostynt eu hunain a'u teuluoedd unwaith y bydd cefnogaeth gan Kinship Connected wedi dod i ben.

Mae Gweithwyr Teuluol Kinship yn annibynnol. Maent yn gweithredu fel cyswllt rhwng teuluoedd perthynas a'r awdurdod lleol, gan hwyluso cyfathrebu cryf a pherthnasoedd gwell.



"Rydyn ni i gyd yn yr un cwch ac yn gwybod beth rydyn ni'n mynd drwyddo... mae llawer ohonom yn uniaethu â'n straeon, a sut mae ein plant wedi cael eu heffeithio... rydyn ni i gyd yn deall ac yn ceisio helpu ein gilydd."
Gofalwr perthynas

Effaith Kinship Connected

Roedd gan ofalwyr perthynas a gymerodd ran yn Kinship Connected:

fynediad uwch at gefnogaeth

iechyd meddyliol gwell

hyder uwch yn eu rôl fel rhiant

llai o bryderon am ymddygiad, iechyd a lles eu plentyn a thrawsnewidiadau addysgol

llai o bryderon am berthynas a chysylltiad eu plentyn â'u rhieni

Ffynhonnell: Adolygiad annibynnol Starks Consulting (2020)



Mae'r adborth gan y tîm staff wedi bod yn gadarnhaol. Mae'r cymorth un-i-un yn darparu gofalwyr gyda pherson niwtral nad yw'n gweithio i'r awdurdod lleol i eirioli drostynt. Gall gofalwyr rannu gwybodaeth nad ydynt efallai yn gallu ei rhannu gyda'u gweithwyr penodedig neu weithwyr plant oherwydd yr ofn a all barhau i fodoli er gwaethaf ein hymdrechion gorau ni i fynd i'r afael â'r ofnau hyn a hyrwyddo ethos agored. Mae'r trydydd sector yn gallu gwneud hyn yn fwy effeithiol gan nad ydi'n dod o dan ymbarél gwasanaethau cymdeithasol ac nid ydi'n cael eu gweld yr un fath â ni.

Rhondra Cynon Taf, Rheolwr Tîm

Kinship Reach

Mae **Kinship Reach** yn rhaglen sydd wedi ennill gwobrau ac mae hi'n cynnig hyd at 6 sesiwn cymorth rhithwir i bob gofalwr perthynas, dros 3 mis, gan Weithiwr Teulu Kinship arbenigol.

Darperir cefnogaeth wedi'i theilwra i bob gofalwr perthynas a'u hamgylchiadau, ac fe'i cyflenwir trwy'r ffôn, galwadau fideo a chyfarfodydd rhithwir i ddarparu eiriolaeth a chymorth i ofalwyr.

Mae awdurdodau lleol wedi dweud wrthym fod Kinship Reach yn ychwanegu capasiti ychwanegol i'w timau, yn rhyddhau amser gweithwyr cymdeithasol, ac yn darparu gwasanaeth hanfodol i deuluoedd perthynas sy'n byw y tu allan i ardal yr awdurdod lleol.

“ Mae Kinship Reach wedi bod yn rhan annatod o gefnogi gofalwyr ac yn wir ychwanegu capasiti a hyblygrwydd ychwanegol i'r gefnogaeth y gallwn ei chynnig... Byddwn yn bendant yn argymhell y gwasanaeth i awdurdodau eraill..

Rheolwr Tîm Awdurdod Lleol

Comisiynu ein rhaglenni

Mae **Kinship Connected** a **Kinship Reach** yn rhaglenni sy'n seiliedig ar dystiolaeth sydd wedi'u cynllunio i fodloni anghenion lleol.

Cysylltwch â Jo Denoris yn commissions@kinship.org.uk i drafod eich gofynion.

Mae buddsoddiad yn ein rhaglenni yn fuddsoddiad mewn teuluoedd perthynas.

Effaith Kinship Reach

Mae data o'n harolygon gofal perthynas yn dangos y canlynol am y gofalwyr perthynas a gymerodd ran yn **Kinship Reach**:

93% yn teimlo'n fwy hyderus yn eu rôl gofalu

68% yn gallu rheoli perthnasoedd teuluol yn well.

92% â llai o bryderon am les eu plentyn

78% yn llai unig

79% yn llai ar wahân





Ar gyfer teulu a
ffrindiau sy'n camu i'r
bwllch i fagu plentyn.

Ni yw Kinship

Kinship yw'r brif elusen gofal perthynas yng Nghymru a Lloegr. Rydym yn gynnyrch ein cymuned o ofalwyr perthynas ac yn bodoli ar eu cyfer.

Fel mewn teuluoedd, mae'r perthnasoedd rhwng gofalwyr perthynas a'r plant maen nhw'n gofalu amdanynt yn ddwfn ac yn ystyrllon. Am gyfnod rhy hir mae'r gofalwyr hyn wedi cel eu hynysu a heb dderbyn y cymorth sydd ei angen arnynt.

Rydym yn gwrando arnynt, yn eu cefnogi, yn eu cyngori a'u hysbysu. Rydym yn eu cysylltu fel eu bod yn teimlo'n bwerus.

Oherwydd mae angen cariad a chynhesrwydd teulu ffyniannus ar blentyn.

Rydym yn datblygu ymchwil, ymgyrchoedd a datrysiadau polisi. Rydym yn creu newid cadarnhaol ar draws cymdeithas.

Oherwydd i deuluoedd perthynas, nid yw cariad yn ddigon ar ei ben ei hun.

Trwy ein gwaith ni rydym yn harneisio rhwystredigaethau i danio angerdd dros newid, a phrofiadau anodd i ysbrydoli syniadau sy'n trawsnewid bywydau.

Ac wrth i ni weld momentwm yn adeiladu, rydym yn parhau i ddefnyddio tystiolaeth i ddangos gwerth gofal perthynas, gan gefnogi gofalwyr perthynas i lywio amgylchiadau heriol a chredu ym mhotensial y plant.

Ymunwch â ni. Gyda'n gilydd, gadewch i ni ymrwymo i newid ar gyfer teuluoedd perthynas.

www.kinship.org.uk



kinship.org.uk



0330 016 7235



info@kinship.org.uk



@kinshipcharity



@kinshipcarecharity



@kinship_charity